



CANOLFAN
DDIWYLLIANT
CONWY
CULTURE
CENTRE

Polisi Mynediad Gwasanaeth Archifau CBSC 2020-2025



**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio
a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live,
work and discover**

Cynnwys

- 1 Cyflwyniad**
- 2 Ein datganiad mynediad**
- 3 Gwneud ein casgliadau'n hygyrch**
- 4 Gwasanaeth reprograffeg**
- 5 Gwasanaeth ymholi ac ymchwilio**
- 6 Gwasanaethau digidol**
- 7 Mynediad cyfyngedig**
- 8 Ein budd-ddeiliaid**
- 9 Dyddiad yr adolygiad**

1 Cyflwyniad

Mae Archifau Conwy'n rhan o Wasanaeth Economi a Diwylliant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Dyma'r unig wasanaeth archifau cyhoeddus ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Ei bwrpas yw casglu a gwarchod dogfennau o arwyddocâd hanesyddol sy'n ymwneud â'r Fwrdeistref Sirol er mwyn iddynt fod ar gael yn hawdd i'r cyhoedd, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae Archifau Conwy yn gwasanaethu pob unigolyn a chymuned sydd â diddordeb yng nghofnodion hanesyddol Bwrdeistref Sirol Conwy. Y budd-ddeiliad yw'r rhai sydd â diddordeb uniongyrchol yn ein gwasanaeth: aelodau etholedig a staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ein defnyddwyr, ein noddwyr/adnewwyr a sefydliadau eraill rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth â nhw.

2 Ein Datganiad Mynediad

Mae Archifau Conwy yn casglu a gwarchod dogfennau sydd yn berthnasol i hanes yr ardal er mwyn iddynt fod ar gael i'r cyhoedd ar gyfer ymchwil, addysg, dysgu ym mhob dull, pwrpasau gweinyddol, archebion statudol a mwynhad.

Mae'r Gwasanaeth Archifau wedi ymrwmo i lunio polisiau a gweithgareddau cadarnhaol er mwyn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal wrth gyflwyno gwasanaethau. Mae hefyd wedi ymrwmo i adnabod a chael gwared ar rwystrau i gynhwysiant cymdeithasol allai atal mynediad at ei wasanaethau a chyfleusterau.

Mae'r archifau ar agor i bawb, yn rhad ac am ddim, er mae yna ffioedd am gopïo dogfennau ac ar gyfer hawliau darlledu. Mae staff ar gael bob amser i helpu ymwelwyr ac i roi cyngor.

Fe atebir ymholiadau o bell yn brydlon yn unol â pholisi'r Cyngor dros y ffôn, ar e-bost neu trwy lythyr.

Mae Gwasanaeth Archifau Conwy yn ymrwmo i ddarparu mynediad i'w gofnodion yn unol â gofynion statudol Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958; Adrannau 224-229 Deddf Llywodraeth Leol 1972; Adran 60 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994; Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae'r adeilad yn cydymffurfio â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a deddfwriaeth cydraddoldeb dilynol: mae arwyddion yn eglur gyda lluniau cyn belled â phosibl, nid oes unrhyw rwystrau yn y manau cyhoeddus, ac ar y llawr gwaelod, mae llefydd parcio wedi'u cadw i ddefnyddwyr anabl, toiled gyda mynediad cadeiriau olwyn ac mae dehongliad o arddangosfeydd treftadaeth wedi'u trosi i laith Arwyddion Prydain.

Mae'n rhaid i bob aelod staff gwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb.

3 Gwneud ein casgliadau'n hygyrch

Gall unrhyw un sy'n ymweld â'r Archif ddefnyddio dogfennau a chyfleusterau eraill megis mynediad am ddim at adnoddau ar-lein a microffilm yn ein hystafell chwilio. Nid oes cost ar gyfer hyn.

Mae'n rhaid meddu ar Gerdyn Archifau (cynllun Cymdeithas Archifau a Chofnodion) i gael mynediad at ddeunyddiau gwreiddiol, ac mae angen cerdyn adnabod swyddogol ar gyfer hyn. Rhoddir gwybod i ddefnyddwyr am hyn a gallant wneud cais am Gerdyn Archifau ar-lein cyn eu hymweliad cyntaf neu gellir eu cynorthwyo i gael cerdyn yn syth ar ôl iddynt gyrraedd.

Mae ein hystafell chwilio yn cynnwys cyfrifiaduron mynediad cyhoeddus i gael gafael ar ein catalogau ar-lein o'n holl gasgliadau i helpu ymwelwyr ddewis pa archifau allai eu helpu â'u gwaith ymchwil. Mae mynediad rhyngwyd am ddim i amrywiaeth o wefannau hanes hefyd ar gael. Mae'r catalogau ar gael ar ffurf copi caled hefyd. Mae staff bob amser wrth law i helpu â chymorthyddion darganfod ac i gyfeirio defnyddwyr at ddeunydd ymchwil penodol.

Bydd copi mynediad o gofnodion a dogfennau o darddiad digidol agored ar gael i chwilwyr drwy gyfrifiaduron Rhwydwaith Cyhoeddus yn yr ystafell chwilio ar gais. Pan fydd ystorfa ddigidol gellir ymddiried ynddi wedi'i mabwysiadu, fe ddarperir mynediad lle bydd modd gweld canlyniadau'r chwilio drwy ddolen yn y catalog ar-lein.

Fel partner yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy rydym ni'n cymryd rhan mewn gweithgareddau estyn allan fel y manylir yng nghynllun gweithgareddau'r Ganolfan Ddiwylliant er mwyn hyrwyddo ein casgliadau, egluro ein gwaith a chwilio am gynulleidfaoedd newydd. Fe allai'r rhain gynnwys cyrsiau hyfforddi, digwyddiadau a rhaglen ysgolion.

Rydym ni'n darparu gwybodaeth a diweddariadau am y gwasanaeth ar wefan CBSC ac yn cyfrannu at gyfryngau cymdeithasol y Ganolfan Ddiwylliant yn rheolaidd. Mae taflenni yn Gymraeg a Saesneg sydd yn nodi ein manylion cyswllt ac oriau agor gan egluro sut i ddefnyddio'r archif hefyd ar gael. Rydym ni'n ymgysylltu gyda'r wasg leol a'r wasg genedlaethol ar adegau i hyrwyddo'r gwasanaeth.

Caiff ein ffioedd eu hadolygu'n flynyddol a'u cyhoeddi yn ein hadran ni ar wefan CBSC yn ogystal â bod ar gael ar ffurf copi caled yn yr ystafell chwilio.

4 Gwasanaeth Reprograffeg

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gallu darparu copïau digidol neu bapur o ddogfennau.

Yr Archifydd mewn gofal sydd i benderfynu ar gopïo unrhyw ddogfennau, a chyflwynir cyfyngiadau yn achlysurol ar gyfer dogfennau bregus am resymau gwarchod.

5 Gwasanaeth ymholi ac ymchwilio

Gall staff yr Archif roi gwybodaeth sylfaenol o ffynonellau yn rhad ac am ddim, ac mewn achosion mwy cymhleth, gallant roi cyngor am ffrydiau posibl o ymchwil.

Rydym ni'n gweithredu gwasanaeth lle gellir talu am ymchwil, lle gellir gwneud awr o waith am y ffi bresennol. Mae ffurflen gais ar gael ar ein gwefan.

6 Ein gwefannau

Mae ystod eang o wybodaeth i ddefnyddwyr ar gael ar ein tudalen ar y wefan Gorfforaethol ac ar wefan Canolfan Ddiwylliant Conwy. Mae hyn yn cynnwys ein horiau agor, ein manylion cyswllt, gwybodaeth am ein casgliad, catalogau y gellir eu chwilio, ffioedd presennol, ffurflen Datgan Hawlfraint, ffurflen gais Chwilio, Newyddlenni a dolenni defnyddiol i ffynonellau ymchwilio allanol. Rydym ni hefyd yn defnyddio gwefan Canolfan Ddiwylliant Conwy fel bod rhagor o gynnwys ar gael ac i gyhoeddi unrhyw ddigwyddiadau neu achlysuron arbennig.

7 Mynediad cyfyngedig

Mae cyfran fechan o ddogfennau yn destun cyfyngiadau. Mae sawl rheswm am y cyfyngiadau yma, mae nifer ohonynt am eu bod yn cynnwys gwybodaeth bersonol sydd yn cael ei ystyried yn sensitif o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Caiff cyfyngiadau o'r fath eu nodi yn y catalog. Dylai ceisiadau a wneir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 am wybodaeth o gofnodion mynediad cyfyngedig eu cyfeirio yn ysgrifenedig i'r Archifydd.

Yn ôl disgrisiwn yr Archifydd, gellir gwrthod mynediad at gofnodion sy'n cael eu hystyried mewn cyflwr rhy wael i gael eu trwsio. Fe roddir y cofnodion yma ar y Gofrestr Gwarchod a'u cofrestru fel "dogfennau mewn perygl" a byddant ar gael pan fyddant wedi'u gwarchod neu pan fydd dirprwyon digidol ar gael.

8 Ein budd-ddeiliaid

Unigolion, grwpiau neu sefydliadau sydd â diddordeb yn y Gwasanaeth Archifau yw'n budd-ddeiliaid. Maent yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ein defnyddwyr (boed nhw'n ymwelwyr 'personol' neu'n ddefnyddwyr 'o bell') ac adneuwr yr archifau. Rydym wedi ymchwilio i anghenion a rhwystrau mynediad ein budd-ddeiliad presennol a rhai'r dyfodol mewn proses drylwyr o greu cynllun gweithgareddau ar gyfer y Gwasanaeth Archifau fel rhan o Ganolfan Ddiwylliant Conwy, ac mae hyn wedi sefydlu proses o werthusiad defnyddwyr drwy ddylunio a chreu cynlluniau cynulleidfaoedd byw.

9 Dyddiad yr adolygiad

Fe adolygir y datganiad polisi fel y bo angen a ddim llai na bob 5 mlynedd. Y dyddiad adolygu nesaf sydd wedi'i gynllunio felly yw mis Rhagfyr 2025.